# *Phytophthora ramorum*

## Medi 2015

## Cyflwyniad

Mae'r nodyn ymchwil hwn yn rhoi crynodeb o hyd a lled yr haint *Phytophthora ramorum* (*P. ramorum*) yng Nghymru a'r camau sy'n cael eu cymryd i fonitro a rheoli lledaeniad y clefyd.

### Cefndir

Genws o fwy na 60 o wahanol rywogaethau o bathogenau planhigion yw *Phytophthora*, ac mae un ohonynt, *P. ramorum*, wedi dod yn fwy a mwy cyffredin yng nghoetiroedd Cymru ers 2010.

Pathogen anfrodorol, tebyg i ffwng yw *P. ramorum*. Gall heintio nifer o wahanol rywogaethau o goed a llwyni, gan gynnwys ffynidwydd Douglas, ffawydd, derw mes digoes a rhododendron.[1] Yn y DU, gwelwyd bod llarwydd Japan yn agored iawn i ddal y clefyd, ac o ganlyniad mae ardaloedd mawr o goetir llarwydd wedi cael eu heintio ac wedi marw.[2] Dim ond ar blanhigion y mae'r clefyd yn effeithio ac nid oes risg i iechyd pobl nac anifeiliaid.

Cafwyd yr adroddiad cyntaf am *P. ramorum* yn y DU yn 2002, a'r planhigion cyntaf i gael eu heintio oedd llwyni addurnol mewn meithrinfeydd planhigion. Ychydig o goed a gafodd eu heffeithio yn y DU tan 2009 pan ganfuwyd bod *P. ramorum* yn heintio ac yn sborynnu (rhyddhau sborau atgenhedlol) ar nifer fawr o goed llarwydd.[3] Ers hynny, mae wedi lledaenu ar draws ardaloedd eang o goetir llarwydd yn y DU, yn enwedig yn ne Cymru, de-orllewin Lloegr a gorllewin yr Alban. Mae'r clefyd hefyd yn gyffredin mewn nifer o wledydd ledled Ewrop er bod ei darddiad gwreiddiol yn anhysbys.

Nid oes triniaeth ar gael ar gyfer haint *P. ramorum*. Mae'r dulliau mwyaf effeithiol o reoli'r clefyd yn canolbwyntio ar ei atal rhag lledaenu trwy gwympo coed sydd wedi'u heintio, neu eu lladd â thriniaethau cemegol, er mwyn cael gwared arnynt.

## Sut mae'r clefyd yn lledaenu

Mae *P. ramorum* yn lledaenu trwy ryddhau sborau sy'n cael eu cludo mewn diferion neu haenau dŵr. Gall y sborau hyn ledaenu dros sawl milltir mewn niwl, cerrynt aer, cyrsiau dŵr a dŵr glaw sy'n tasgu. Mae coed llarwydd yn cynhyrchu sborau ar nodwyddau, a'r rheiny wedyn yn cael eu colli tua diwedd yr hydref.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau[4] i'r cyhoedd, gan nodi y dylent gael gwared ar fwd a dail oddi ar esgidiau a theiars ar ôl gadael ardaloedd coetir, er mwyn atal sborau rhag lledaenu mewn deunydd planhigion wedi'i heintio.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn datgan nad oes cysylltiad eglur rhwng y difrod a wneir i goed llarwydd gan geirw a gwiwerod llwyd, a haint *P. ramorum*. Credir hefyd bod sborau a gludir mewn ffwr anifeiliaid yn ddibwys, o'u cymharu â sborau a drosglwyddir yn yr aer.

### Adnabod haint *P. ramorum*

Ar foncyffion coed, mae'r haint i'w weld fel briwiau neu 'gancrau diferol'. Crystiau du yw'r rhain, ac oddi tanynt mae'r rhisgl wedi newid ei liw ac yn marw. Yn achos llarwydd Japan, gall y blagur a'r deiliach fod wedi gwywo, â'r nodwyddau fod wedi duo. Mewn ffotograffau o'r awyr o goed wedi'u heintio, mae'n gyffredin gweld deiliach wedi newid eu lliw a

[1] Y Comisiwn Coedwigaeth, ***Phytophthora ramorum*** (gwefan) [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[2] *ibid*
[3] *ibid*

[4] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Bioddiogelwch** (gwefan) [fel ar 22 Gorffennaf 2015].

changhennau wedi gwywo. Mewn llwyni eraill fel rhododendron, gall y dail fod wedi duo a blagur newydd fod wedi gwywo. Nid yw *P. ramorum* fel arfer yn lladd rhododendron ar ôl ei heintio, ond mae'n bosibl i'r haint gael ei drosglwyddo i blanhigion eraill trwy sborynnu.

Gall arolygwyr wneud diagnosis o haint *Phytophthora* ar y safle, a chaiff ei gadarnhau wedyn trwy brofion labordy.


## *Phytophthora ramorum* yng Nghymru

Cafwyd yr adroddiad cyntaf am *P. ramorum* yng Nghymru yng nghwm Afan yn 2010. Ers hynny, datblygodd i fod y clefyd mwyaf difrifol i fod wedi effeithio ar goedwigaeth yng Nghymru.[5] Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi rhannu Prydain yn dri pharth yn ôl lefel y risg. Oherwydd ei hinsawdd wlyb (sy'n cynorthwyo i drosglwyddo sborau) mae gorllewin Prydain, gan gynnwys Cymru, yn ffurfio Parth 1. Y parth hwn a nodwyd fel yr un â'r perygl mwyaf o haint *P. ramorum*.

Oddeutu **21,000 hectar** yw cyfanswm arwynebedd y coetir llarwydd yng Nghymru, sef **tua 7% o gyfanswm arwynebedd yr holl goetiroedd**.[6] Mae hanner y coetiroedd yng Nghymru yn eiddo i Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru.

[5] Llywodraeth Cymru. ***Phytophthora ramorum* yng Nghymru - Strategaeth rheoli'r clefyd,** 13 Ionawr 2014 [fel ar 22 Gorffennaf 2015].
[6] Llywodraeth Cymru. ***Phytophthora ramorum* yng Nghymru - Strategaeth rheoli'r clefyd,** 13 Ionawr 2014 [fel ar 22 Gorffennaf 2015].

**Ffigur 1: Lleoliadau achosion o *P. ramorum* yng Nghymru a nodwyd trwy astudiaethau o'r awyr.**




**Ffynhonnell: Y Comisiwn Coedwigaeth, Awst 2015.**[7]

Mae Ffigur 1 yn dangos lleoliad achosion newydd o'r haint rhwng 2010 a mis Awst 2015. Ers i'r clefyd gael ei adnabod gyntaf yng Nghymru yn 2010, mae mwy na **6000 hectar o goetir wedi eu heintio**, sef tua **6 miliwn o goed.**[8] Yn **2013 yn unig, cafodd dros 3000 hectar** o goetir llarwydd eu heintio â *P. ramorum* (oddeutu 3 miliwn o goed).[9] Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, gellid priodoli'r nifer fawr o achosion newydd yn 2013 i haf gwlyb 2012, a roddodd amgylchiadau da i'r sborau ledaenu.[10]

Roedd canlyniadau cychwynnol arolwg a gynhaliwyd ym mis Mai 2014 yn awgrymu nad oedd y clefyd wedi lledaenu mor eang ag mewn blynyddoedd blaenorol; 40 hectar (tua 40,000 o goed).[11]

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol iechyd coed yng Nghymru. Mae'n dosbarthu **Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol** sy'n rhoi gwybod i berchnogion coetiroedd bod gofyn cael gwared ar goed heintiedig, ac yn darparu amserlen ar gyfer gwneud hynny. Gellir rhoi hysbysiadau i berchnogion coetiroedd preifat neu i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer coed ar Ystâd Coetir

[7] Y Comisiwn Coedwigaeth**, *Phytophthora ramorum* outbreak map**, Medi 2014 [fel ar 22 Gorffennaf, 2015].
[8] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Chwilio Cymru benbaladr o'r awyr am goed llarwydd heintiedig**, 21 Mai 2014 (gwefan) [fel ar 22 Gorffennaf 2015].
[9] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Chwilio Cymru benbaladr o'r awyr am goed llarwydd heintiedig**, 21 Mai 2014 (gwefan) [fel ar 22 Gorffennaf 2015].
[10] *ibid*
[11] *ibid*

Llywodraeth Cymru (rhoddir manylion yn nes ymlaen).

## Strategaeth Iechyd Coed Cymru

Nod Strategaeth Iechyd Coed Cymru[12] yw:

> Sicrhau coed a choetiroedd iach a byw yng Nghymru drwy strategaethau i allgau, canfod ac ymateb i blâu a phathogenau hen a newydd, a brodorol ac egsotig, sy'n effeithio ar goed. Cymryd mesurau rhagweithiol i leihau effaith plâu a chlefydau ar goed a choetiroedd Cymru.[13]

Caiff ei reoli gan **Grŵp Llywio Iechyd Coed Cymru**. Mae'r is-grŵp, **Tîm Ymateb Gweithredol Cymru ar *Phytophthora***, yn darparu cyngor ac argymhellion ar reoli *P. ramorum*.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai camau i gael gwared yn llwyr ar *P. ramorum* yng Nghymru yn rhy gostus ac yn defnyddio llawer o adnoddau. Yn lle hynny, nod y strategaeth yw arafu, yn hytrach nag atal lledaeniad y clefyd, er mwyn lleihau'r effeithiau amgylcheddol ac economaidd yn sgil cwympo coed ar raddfa fawr.

Ym mis Ionawr 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Rheoli *P. ramorum*[14], yn rhan o'r Strategaeth Iechyd Coed ehangach. Mae Strategaeth Rheoli *P. ramorum* yn rhoi pwyslais ar effeithiau'r pathogen ar goed llarwydd Siapan, Hybrid ac Ewropeaidd. Mae'r strategaeth yn rhannu Cymru'n ddau barth. Mae **Parth Craidd y Clefyd** yn gyfyngedig i'r de, lle y ceir lefelau uchel o haint mewn ardaloedd o goed llarwydd sy'n ffinio â'i gilydd. Mae **Parth Cyfyngu'r Clefyd** yn cwmpasu gweddill Cymru.

Adolygir maint Parth Craidd y Clefyd ddwywaith y flwyddyn, ym mis Mehefin a mis Tachwedd. Mae Ffigur 1 yn dangos terfyn y parth hwn ym mis Rhagfyr 2014 (yr ardal wedi'i liwio'n oren).

### Cwympo coed

Ers 2010 mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwympo oddeutu **3 miliwn o goed llarwydd heintiedig yng Nghymru**.[15] Hyd yn hyn mae 80% o'r coed llarwydd sydd wedi'u heintio â *P. ramorum* wedi bod mewn coetir sy'n eiddo i Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, lle caiff y gwaith o gwympo coed ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Perchnogion y coetir sy'n gyfrifol am y gwaith cwympo pan fo mewn dwylo preifat, ond gall Cyfoeth Naturiol Cymru orchymyn iddynt wneud hynny trwy gyfrwng Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n cwympo ardal sydd wedi'i heintio'n arbennig o wael; Ffordd Goedwig Cwmcarn yn ne Cymru lle mae 78% o'r coed wedi'u heintio. Bydd cyfanswm o 160,000 o goed llarwydd heintiedig yn cael eu cwympo yn ystod yr ymgyrch ddwy flynedd.[16]

Mae gofyn cwympo coed heintiedig sy'n sborynnu, fel llarwydd a chastanwydd pêr, er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu. Cyfeirir at goed fel ffynidwydd Douglas, sy'n gallu dal yr haint ond nad ydynt yn sborynnu, fel **'organebau lletyol terfynol'** oherwydd nad ydynt yn trosglwyddo'r haint. Nid oes angen cwympo'r coed hyn ar unwaith, ond cânt eu cofnodi er mwyn asesu effaith y clefyd ar rywogaethau eraill.[17] Mae'r broses o gynhyrchu sborau yn cyrraedd ei hanterth yn nechrau'r hydref, felly dylid cwympo coed sydd wedi'u heintio cyn diwedd mis Awst. Mae'n fwy anodd adnabod *P. ramorum* mewn coed llarwydd ar ôl iddynt golli eu nodwyddau, ac mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cynghori yn erbyn cwympo coed llarwydd yn ystod

---

[12] Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Iechyd Coed (PDF, 468KB)** , 13 Ionawr 2014 [fel ar 22 Gorffennaf 2015].
[13] *ibid*
[14] Llywodraeth Cymru. ***Phytophthora ramorum* yng Nghymru - Strategaeth rheoli'r clefyd**, 13 Ionawr 2014 [fel ar 22 Gorffennaf 2015].
[15] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Gwaith yn parhau yng Nghoedwig Afan i blannu coed yn lle'r llarwydd a gwympwyd**, 19 Mawrth 2015 [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[16] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Ein gwaith yng nghoedwig Cwmcarn**, 13 Mawrth 2015 (gwefan) [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[17] Y Comisiwn Coedwigaeth, **Aerial Survey Update** (PDF, 4.2 MB) [fel ar 22 Gorffennaf 2015].

misoedd y gaeaf.

Roedd strategaethau cychwynnol i reoli lledaeniad *P. ramorum* yn ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr gwympo coed heintiedig ac yna'r holl goed llarwydd o'u hamgylch hyd at radiws o 100 i 250m.

Yn rhan o Strategaeth Rheoli *P. ramorum* Llywodraeth Cymru, cyhoeddir Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol ar gyfer coed heintiedig ym Mharth Cyfyngu'r Clefyd, gan ei gwneud yn ofynnol cwympo'r coed ar unwaith i gyfyngu lledaeniad y clefyd. Mae coed heintiedig ym Mharth Craidd y Clefyd yn destun **Hysbysiadau Symud,** ac nid yw'r rhain yn nodi pryd y mae'n ofynnol i goed gael eu cwympo.

Sefydlwyd agwedd wahanol tuag at gwympo coed ym Mharth Craidd y Clefyd er mwyn rheoleiddio llif pren llarwydd i'r farchnad a thrwy hynny atal prisiau rhag cael eu tanseilio.

Cefnogir y strategaeth hon gan astudiaeth gan Brifysgol Caergrawnt[18] a aeth ati i fodelu lledaeniad *P. ramorum* yng Nghymru. Canfu'r astudiaeth mai'r dull mwyaf effeithiol o atal clefydau, pan fo adnoddau'n gyfyngedig, yw cwympo coed heintiedig sydd wedi'u lleoli ar y cyrion, fel y rhai ym Mharth Cyfyngu'r Clefyd.

Hyd at fis Ebrill 2015 roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi 570 o Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol ledled Cymru (77% ar ystâd coetir Llywodraeth Cymru a 23% ar dir preifat). Ym mis Ebrill 2015, yn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, roedd y gwaith wedi'i gwblhau ar 85 y cant o'r ardal yr oedd yr hysbysiadau'n ei chwmpasu ym Mharth Cyfyngu'r Clefyd, a 15 y cant heb ei gwblhau. Ym Mharth Craidd y Clefyd, roedd y gwaith wedi'i gwblhau ar 52 y cant o'r ardal yr oedd yr hysbysiadau'n ei chwmpasu, a 48 y cant heb ei gwblhau.

[18] Prifysgol Caergrawnt, **Phytophthora Modelling Update**, (PDF, 623KB) Ionawr 2014 [fel ar 23 Gorffennaf 2015].

Mewn coedwigoedd sydd mewn dwylo preifat ym Mharth Cyfyngu'r Clefyd, roedd y gwaith wedi'i gwblhau ar 39 y cant o'r ardal yr oedd yr hysbysiadau'n ei chwmpasu, a 61 y cant heb ei gwblhau. Ym Mharth Craidd y Clefyd, roedd y gwaith wedi'i gwblhau ar 47 y cant o'r ardal, a 53 y cant heb ei gwblhau.[19]

Ar gyfartaledd rhwng Parth Cyfyngu'r Clefyd a Pharth Craidd y Clefyd (ar draws tir preifat ac Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru) roedd y gwaith wedi'i gwblhau ar 60 y cant o'r ardaloedd y cyhoeddwyd hysbysiadau ar eu cyfer, a heb ei gwblhau ar 40 y cant.[20]

Mae'r amserlenni ar gyfer cwympo coed yn amrywio, yn dibynnu a yw'r safle o fewn Parth Craidd y Clefyd ai peidio, a phryd y canfuwyd yr haint. Os cyhoeddir yr hysbysiad rhwng 30 Mehefin a 31 Ionawr, y dyddiad cydymffurfio yw 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol. Os caiff ei gyhoeddi rhwng 1 Chwefror a 30 Mehefin, y dyddiad cydymffurfio yw 31 Awst yn yr un flwyddyn. Felly, mae gan berchnogion rhwng 3 a 9 mis i gwblhau'r gwaith ym Mharth Cyfyngu'r Clefyd fel arfer.

## Effaith economaidd cwympo coed

Rhwng canfod yr achosion o'r clefyd *P. ramorum* yng Nghymru a mis Mai 2014, roedd 450,000 metr ciwbig o bren heintiedig o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyflenwi i broseswyr coed.[21] Mae gwerth masnachol coed llarwydd sydd wedi'u heintio â *P. ramorum* yn is ac efallai na fyddent wedi cyrraedd aeddfedrwydd economaidd cyn y mae angen eu cwympo. Mae cyfran y llarwydd sy'n cael ei gynaeafu a'i werthu o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, o'i gymharu â mathau eraill o goed, wedi

[19] Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru, **Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru**, (PDF, 1.2MB) 2014 [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[20] Data Cyfoeth Naturiol Cymru heb ei gyhoeddi
[21] Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru, **Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru**, (PDF, 1.2MB) 2014 [fel ar 23 Gorffennaf 2015].

cynyddu o **6.3 y cant yn 2010/11** i ychydig o dan **30 y cant yn 2014/15**.

## Triniaeth gemegol

Dewis arall yn hytrach na chwympo yw chwistrellu coed heintiedig â chemegau sy'n achosi iddynt gael eu lladd ble maent yn sefyll. Ystyrir bod y dull hwn yn llai effeithiol na chwympo oherwydd bod coed yn cael eu lladd dros gyfnod hirach o amser. Gall sborau gael eu rhyddhau yn ystod y cyfnod hwn gan ledaenu'r clefyd ymhellach. Yn ogystal, gall fod angen mwy nag un driniaeth ar rai coed er mwyn eu lladd yn gyfan gwbl.

## Ailstocio

Rhwng 2013 a 2014, ailblannodd Cyfoeth Naturiol Cymru 750,000 o goed i gymryd lle'r rhai a gafodd eu cwympo o ganlyniad i *P. ramorum*.[22] Rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2015, mae hefyd yn bwriadu plannu 3.2 miliwn o goed fel rhan o'i raglen blannu ehangach.[23]

Ar ddiwedd cyfnod Strategaeth Rheoli *P. ramorum* rhagwelir y bydd coed llarwydd yng Nghymru wedi cael eu disodli'n gyfan gwbl gan gymysgedd o rywogaethau coed. Un o amcanion y strategaeth yw creu mwy o amrywiaeth yng nghoetiroedd Cymru ac, yn sgil hynny, sicrhau eu bod mewn sefyllfa gryfach i ymdopi ag achosion o glefydau yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi 37 o rywogaethau coed sy'n addas ar gyfer ailstocio.[24] Mae'r rhain yn cynnwys derw brodorol, ceirios a phisgwydd ochr yn ochr â phren â mwy o alw amdano ar y farchnad fel ffynidwydd Douglas, sbriws Serbia a chedrwydd coch. Yn 2014, conwydd oedd 64 y cant o'r coed a ddefnyddiwyd i ailstocio yng Nghymru, a rhywogaethau llydanddail oedd 36 y cant.[25]

Mae'r gwaith ailstocio hyd yma wedi canolbwyntio'n arbennig ar ardaloedd Bwlch Nant yr Arian ger Aberystwyth, Cwm Afan ger Castell-nedd, a Choed Gwent yn Nyffryn Gwy, lle mae'r gorchudd coetir wedi lleihau'n fawr o ganlyniad i'r clefyd *P. ramorum*.[26]

## Glastir

Fel rhan o'r cynllun Glastir, roedd perchnogion coetir yn gallu gwneud cais am grant ailstocio er mwyn plannu ystod ehangach o rywogaethau yn lle coed heintiedig. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i safleoedd â Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol, er mwyn cynnal gorchudd coetiroedd a chynyddu amrywiaeth y rhywogaethau coed ar dir preifat.[27]

Ym mis Ebrill 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun **Adfer Coetir Glastir**. Mae cyllid ar gael i ailblannu ardaloedd llarwydd sydd wedi cael eu cwympo, neu sydd ar fin cael cwympo, o ganlyniad i haint *P. ramorum*. Byddai'r arwynebedd sy'n gymwys ddwywaith yr arwynebedd a nodwyd ar Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol neu drwyddedau cwympo coed.[28] Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd tua 400 hectar yn cael eu hailblannu erbyn 31 Mawrth 2016 o ganlyniad i'r cymorth hwn ac y bydd ail alwad i fynegi diddordeb yn yr hydref, ar gyfer gwaith ailblannu i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2017.[29]

---

[22] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013/14** (PDF, 6.7MB) [fel ar 27 Mawrth 2015].
[23] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Gwaith yn parhau yng Nghoedwig Afan i blannu coed yn lle'r llarwydd a gwympwyd**, 19 Mawrth 2015 [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[24] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013/14** (PDF, 6.7MB) [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[25] Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru, **Tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru gwybodaeth ychwanegol**, (PDF, 1.2MB) 2014 [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[26] *ibid*
[27] Llywodraeth Cymru, **Rheoli coetiroedd Glastir: cwestiynau cyffredin**, 13 Mai 2013 [fel ar 30 Mawrth 2015].
[28] Llywodraeth Cymru, **Gwlad: Adfer Coetir Glastir** (gwefan) [fel ar 23 Gorffennaf 2015].
[29] Llywodraeth Cymru, **Datganiad ysgrifenedig - y diweddaraf am iechyd coed yng Nghymru**, 16 Gorffennaf 2015 [fel ar 23 Gorffennaf 2015].

## Prosiectau traws-ffiniol

Mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a sefydliadau coedwigaeth datganoledig eraill i baratoi strategaethau i arafu lledaeniad *P. ramorum* ledled y DU.

### Arolygon o'r awyr

Gellir adnabod coed llarwydd wedi'u heintio â *P. ramorum* o ffotograffau o'r awyr, gan fod y deiliach wedi newid eu lliw. Gellir cadarnhau hyn trwy gynnal arolygon dilynol ar y ddaear.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr, gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon, wedi cynnal astudiaethau o'r awyr o ardaloedd coetir i fonitro lledaeniad *P. ramorum*, yn ogystal â nodi achosion newydd mewn ardaloedd lle nad oedd yr haint i'w weld yn flaenorol. Yn 2014, arolygwyd cyfanswm o 57,208 hectar o goetir llarwydd dan reolaeth breifat a chyhoeddus. Dangosodd y canlyniadau fod y rhan fwyaf o achosion newydd o'r haint i'w cael yng nghyffiniau achosion a gadarnhawyd yn flaenorol (yng Nghymru, ym Mharth Craidd y Clefyd) neu mewn mannau lle mae rhododendron heintiedig gerllaw.

### *Y Bwrdd Prosiect Phytophthora*

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o Fwrdd Prosiect *Phytophthora*, sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr ochr yn ochr â rhanddeiliaid o grwpiau coedwigaeth preifat a sefydliadau anllywodraethol sydd â diddordeb mewn coetiroedd a choedwigoedd. Ei ddiben yw galluogi sefydliadau i rannu gwybodaeth a chyngor ym mhob agwedd ar y broses o reoli'r clefyd.[30]

[30] Y Comisiwn Coedwigaeth, ***Phytophthora ramorum* frequently asked questions** (gwefan) [fel ar 22 Gorffennaf 2015].

### Tîm Rheoli Achosion y DU

Cydweithrediad rhwng grwpiau ymchwil coedwigaeth a'r sector coedwigaeth yw'r Tîm Rheoli Achosion. Cafodd ei sefydlu i ddatblygu strategaethau i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd, rheoli bioddiogelwch a hyrwyddo gwaith ymchwil.

### Rheoleiddio

*Mae P. ramorum* yn destun mesurau gan yr UE i sicrhau iechyd planhigion.[31] Mae'r mesurau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r deunydd coediog sy'n deillio o gwympo coed llarwydd heintiedig gael ei gario gan gludwyr cofrestredig. Rhaid i broseswyr y deunyddiau hefyd fod yn gofrestredig. Ni chaniateir i gynhyrchion sy'n cynnwys rhisgl oddi ar larwydd halogedig gael eu defnyddio fel tomwellt garddwriaethol, rhag halogi coetiroedd nad ydynt wedi'u heintio.

[31] **OJ L 252 20.9.2002** (PDF, 56.6KB) [fel ar 22 Gorffennaf 2015].

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ***Phytophthora ramorum***, cysylltwch â **Nia Seaton** (**nia.seaton@assembly.wales** ), Y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

– **Cyfoeth Naturiol Cymru**

– **Y Comisiwn Coedwigaeth**

– Ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru **i'r ystâd goetir gyhoeddus yng Nghymru.**

Mae ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar gael ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@Cynulliad.Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: RS151869**